

Ymchwilio i'r cysylltiad rhwng oedolion sy'n camddefnyddio sylweddau a chanlyniadau iechyd a chyfiawnder troseddol plant ar yr aelwyd

 Data Report



Awduron:

Hywel T Evans¹, Ian Farr¹, Grace Bailey¹, Josh Dixon², Jo Maimaris², Sam Fallick², Columbus Ohaeri², Ryan Phillips³, Matt Skermer², Delyth James², Josie Smith³

Cysylltiadau:

1. Gwyddor Data Poblogaeth, Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe, Abertawe
2. YDG Cymru, Llywodraeth Cymru
3. Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2 Capital Quarter, Caerdydd, Y Deyrnas Unedig

Cydnabyddiaethau:

Mae'r Mewnwelediad Data hwn yn gyhoeddiad ar y cyd rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru, Ymchwil Data Gweinyddol Cymru, Banc Data SAIL a Llywodraeth Cymru fel rhan o'r rhaglen Gwell Canlyniadau trwy Ddata Cysylltiedig (BOLD). Mae BOLD yn rhaglen drawslywodraethol a ariennir gan Drysorlys EM (2021-2025) a gynlluniwyd i ddangos sut y gellir cefnogi pobl ag anghenion cymhleth yn well trwy gysylltu a gwella data'r llywodraeth a gedwir arnynt mewn ffordd ddiogel.



Tabl cynnwys

Cefndir	3
Beth wnaethom ni	3
Yr hyn a ganfuwyd gennym	7
Proffil demograffig y carfannau plant	7
Amddifadedd ac iechyd adeg geni:	8
Anghenion cymhleth a lluosog – proffiliau plant ac oedolion	9
Cyfiawnder troseddol	10
Plant sy'n derbyn gofal a chymorth	10
Pam mae'n bwysig	11
Beth nesaf?	12
Ehangu data cysylltiedig	12
Mynd i'r afael â chyfyngiadau'r astudiaeth a rhagfarn bosibl	12
Cyfeiriadau	14
Atodiadau	17
Atodiad A	17
Atodiad B	20
Atodiad C	21



Cefndir

Hyd yma, mae ymchwil i effaith rhieni sy'n camddefnyddio sylweddau ar blant wedi cwmpasu amrywiaeth o agweddau iechyd, cymdeithasol ac economaidd. Mae plant sy'n byw mewn aelwydydd gyda rhieni sy'n camddefnyddio sylweddau yn fwy tebygol o ddod i gysylltiad â thlodi, trais domestig, cyfnodau yn yr ysbyty, anawsterau dysgu, a chyflyrau iechyd meddwl fel iselder a gorbryder.¹ Yn aml, mae gan blant sy'n cael eu heffeithio gan riant/gofalwr sy'n camddefnyddio sylweddau ofynion lles ac iechyd meddwl ychwanegol² gan gynnwys cysylltiadau demograffig-gymdeithasol a chynenedigol sy'n achosi i fabanod gael heriau datblygiadol yn ogystal â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod.³ Dangoswyd bod defnydd problemus o alcohol yn y teulu yn ffactor risg sylweddol ar gyfer defnyddio alcohol yn gynnar yn ystod y glasoed.⁴

Caiff camddefnyddio sylweddau ei gydnabod yn eang fel problem iechyd cyhoeddus sylweddol⁵ a gellir ei ddiffinio fel defnydd rheolaidd sy'n achosi niwed gwirioneddol (canlyniadau negyddol) i'r unigolyn (gan gynnwys dibyniaeth, ond problemau iechyd, seicolegol neu gymdeithasol eraill hefyd), neu sy'n rhoi'r person mewn tebygolrwydd/risg uchel o ddioddef niwed o'r fath.⁶

Mae nifer o bolisiau a gwasanaethau ar waith i ddarparu cymorth wedi'i dargedu ar gyfer teuluoedd agored i niwed gyda'r nod o liniaru effeithiau niweidiol a galluogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd lle bo hynny'n briodol, gan gynnwys Teuluoedd yn Gyntaf.⁷

Mae'r Mewnwelediad Data hwn yn cyflwyno canfyddiadau astudiaeth a gynhaliwyd fel rhan o Gynllun Peilot BOLD ar gyfer Dangos Camddefnyddio Sylweddau (Cam 1) yng Nghymru, sy'n canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar ac atal cynnydd mewn camddefnyddio sylweddau. Mae rhagor o wybodaeth am raglen BOLD ar gael yma: [Better Outcomes Through Linked Data \(BOLD\)](#)

Mae'r gwaith ymchwil hwn yn cymharu canlyniadau iechyd a chyfiawnder troseddol plant sy'n byw mewn aelwydydd sydd neu sydd ddim ag oedolion sy'n camddefnyddio sylweddau. Nod yr astudiaeth yw llywio strategaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer atal, ymyrryd a chymorth ychwanegol, a thrwy hynny feithrin llwybrau iachach ar gyfer plant a'u rhieni a'u gofalwyr y mae camddefnyddio sylweddau yng Nghymru yn effeithio arnynt.

Beth wnaethom ni

Cynhaliwyd astudiaeth garfan electronig ôl-weithredol (e-garfan) ar raddfa poblogaeth i gynhyrchu set ddata gysylltiedig sy'n cynnwys aelwydydd plant ac




oedolion yng Nghymru rhwng 01 Ionawr 2011 a 31 Rhagfyr 2019. Defnyddiodd yr astudiaeth Fanc Data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL), ystorfa ddiogel o ddata iechyd, cyfiawnder a gweinyddol dienw, gyda data lefel person a lefel cyfeiriad cysylltiedig cyfoethog ar gyfer poblogaeth Cymru.

Defnyddiwyd set ddata Ymarfer Cyffredinol Hydredol Cymru (WLGP, set ddata sy'n cynnwys cofnodion meddygon teulu gofal sylfaenol), a oedd yn cynnwys cofnodion ar gyfer 86% o boblogaeth Cymru (ar ddyddiad echdynnu'r data, 01 Hydref 2022), i sefydlu poblogaeth oedran plant < 18 oed ar gychwyn cofrestriad â meddyg teulu, ac oedolion (≥ 18 oed). Yna cysylltwyd â Set Ddata Gwasanaeth Demograffig Cymru (WDSO). Mae'r WDSO yn darparu gwybodaeth ddemograffig ar gyfer pobl sydd wedi cofrestru â meddyg teulu yng Nghymru, gan gynnwys Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2019.⁸

Er mwyn nodi poblogaeth yr astudiaeth, defnyddiwyd cyfres o reolau. Roedd yn rhaid i'r unigolion gael ALF (maes cyswllt dienw) ar gyfer cyswllt, sy'n deillio o ddefnyddio cyswllt cofnodion penderfyniaethol a thebygiaethol, gyda thebygolrwydd cyfatebol o ≥ 90% [15]. Roedd yn rhaid hefyd iddynt gael wythnos eni ddilys (y dydd Llun cyn y dyddiad geni, i helpu i ddiogelu statws anhysbys) a rhyw.

Dangosir meini prawf cynnwys ac eithrio yr astudiaeth gyda'r cyfrifiadau cyfatebol yn Ffigur 1.



Ffigur 1: Meini prawf cynnwys a chyfrifiadau ar gyfer oedolion a phlant sydd wedi cofrestru â Meddyg Teulu yng Nghymru, ac sy'n byw yn yr un cyfeiriad am ≥ 90 diwrnod rhwng 1 Ionawr 2011 a 31 Rhagfyr 2019 yng Nghymru



Cyswllt data gydag e-garfan

Crëwyd baner ar gyfer oedolion a gafodd ddigwyddiad camddefnyddio sylweddau yn ystod yr amser yr oeddent wedi cofrestru yn yr un cyfeiriad â phlentyn. Nodwyd digwyddiadau camddefnyddio sylweddau (SM) o saith ffynhonnell fel y dangosir yn Nhabl 1.

Tabl 1: Setiau data sy'n gysylltiedig â'r e-garfan ac a gyrchwyd trwy fanc data SAIL

Acronym set ddata	Disgrifiad set ddata	Pwrpas yn yr astudiaeth
WDSD	Welsh Demographics Survey Dataset – cofrestr o'r holl unigolion sydd wedi cofrestru gyda Meddyg Teulu yng Nghymru, yn cynnwys cyfeiriad dienw unigolion, a hanes practis.	Poblogaeth astudiaeth diffiniedig, cartrefi, ac amser yn yr astudiaeth
WLGP	Welsh Longitudinal General Practice Dataset – presenoldeb a gwybodaeth glinigol ar gyfer pob rhyngweithiad practis cyffredinol yng Nghymru.	Ffynhonnell digwyddiadau cysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau
SMDS	Substance Misuse Data Set (a elwir hefyd yn Welsh National Database for Substance Misuse – WNDSM) – yn casglu data sy'n ymwneud â'r holl unigolion sy'n cyflwyno ar gyfer triniaeth camddefnyddio sylweddau yng Nghymru.	Ffynhonnell digwyddiadau cysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau
PEDW	Patient Episode Dataset for Wales – mae'n cynnwys yr holl weithgarwch cleifion mewnol ac achosion dydd a gyflawnir yn GIG Cymru, ynghyd â data ar drigolion Cymru a gafodd driniaeth mewn Ymddiriedolaethau yn Lloegr.	Ffynhonnell digwyddiadau cysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau
EDDS	Emergency Department Data Set – presenoldeb a gwybodaeth glinigol ar gyfer holl dderbyniadau damweiniau ac achosion brys GIG Cymru.	Ffynhonnell digwyddiadau cysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau
OPDW	Outpatient Database for Wales – gwybodaeth presenoldeb ar gyfer pob apwyntiad claf allanol ysbyty.	Ffynhonnell digwyddiadau cysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau
ADDE	Annual District Death Extract – cofrestr o'r holl farwolaethau sy'n ymwneud â thrigolion Cymru sy'n deillio o gofrestr Marwolaethau SYG.	Ffynhonnell digwyddiadau cysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau a dyddiad marwolaeth
MACO	Magistrates' Court defendant case level dataset – unigolion sy'n ymddangos fel diffynyddion mewn achosion troseddol yr ymddrinnir â hwy gan lysoedd ynadon yng Nghymru a Lloegr. Mae pob achos troseddol yn dechrau gyda gwrandawriad cyntaf mewn llys ynadon.	Ffynhonnell digwyddiadau cysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau
NCCH	National Community Child Health database – y system iechyd plant yng Nghymru.	Ffynhonnell gwybodaeth geni
CINW	Children In Need census Wales. O fis Ebrill 2016, daeth CINW i ben a daeth CRCS yn ei le.	Ffynhonnell gwybodaeth plant
CRCS	Children Receiving Care and Support census – plant â chynllun gofal a chymorth. Yn dal plant gyda chynllun gofal a chymorth, tra bod gan CINW gwmpas ehangach.	Ffynhonnell gwybodaeth plant
LACW	Children Looked After Wales – cyfrifiad blynyddol sy'n cynnwys gwybodaeth am ofal gan awdurdod lleol y mae plentyn wedi'i dderbyn y flwyddyn honno.	Ffynhonnell gwybodaeth plant



Roedd y dadansoddiad yn canolbwyntio ar gymhariaeth rhwng plant lle'r oedd tystiolaeth o ddigwyddiad(au) SM mewn oedolion yn byw ar yr un aelwyd, a phlant mewn aelwydydd heb unrhyw dystiolaeth o oedolion sy'n camddefnyddio sylweddau.

Mae'r digwyddiadau SM oedolion yn cynnwys:

- Atgyfeiriad at wasanaethau triniaeth SM arbenigol o fewn cyfnod yr astudiaeth
- Digwyddiadau iechyd cysylltiedig â SM fel mynd i Adran Achosion Brys, cleifion allanol neu dderbyn i'r ysbyty
- Achos llys ynadon sy'n gysylltiedig â SM lle mae dyddiad y drosedd neu ddyddiad gwrandawriad llys cyn diwedd yr astudiaeth
- Cofnod swyddogol o farwolaeth yn ymwneud â chyffuriau neu alcohol

Defnyddiwyd lleoliad yr aelwyd i nodi mynegai amddifadedd lluosog gan ddefnyddio cwintel WIMD 2019, mesur daearyddol o amddifadedd yn seiliedig ar ardal.

Cafodd poblogaethau plant eu haenu yn ôl demograffeg gan gynnwys oedran, rhyw, pwysau geni, oed y ffetws ac amrywiaeth o newidynnau ychwanegol gan gynnwys:

- Cofnod 'Plentyn Mewn Angen neu Blentyn yn Derbyn Gofal a Chymorth' ar unrhyw adeg cyn diwedd yr astudiaeth, gyda'r categori cyntaf o angen – y prif reswm iddynt ddechrau derbyn gofal a chymorth. Mae'r rhain yn cynnwys: cam-drin neu esgeuluso, anabledd neu salwch plant, anabledd neu salwch rhieni, teulu mewn straen aciwt, camweithrediad teuluol, ymddygiad plant sy'n annerbyniol yn gymdeithasol, rhianta absennol, tarfu oherwydd mabwysiadu, ac a nodwyd problem SM plentyn neu oedolyn
- Cofnod ar y Gofrestr Amddiffyn Plant cyn diwedd yr astudiaeth
- Cofnod ar gyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal Cymru [24] cyn diwedd yr astudiaeth
- Cofnod o achos llys ynadon sy'n gysylltiedig â SM, lle mae dyddiad y drosedd neu ddyddiad gwrandawriad llys cyn diwedd yr astudiaeth
- Cofnod o atgyfeiriad at wasanaethau triniaeth SM cyn diwedd yr astudiaeth

Gwnaed dadansoddiad hefyd ar gyfer poblogaethau oedolion a phlant gan ddefnyddio codau clinigol ICD-10 ar gyfer gwneud diagnosis o'r canlynol:

- Gorbryder
- Iselder
- Hunan-niweidio
- Anawsterau dysgu
- Materion niwroddatblygiadol (anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd, ac anhwylder sbectrwm awtistiaeth)



- Hunanladdiad

Roedd dadansoddiadau ystadegol yn cynnwys ystadegau disgrifiadol cryno o blant (aelwydydd SM) gydag oedolion SM ar yr aelwyd a hebddynt (cyfeiriad), a chyffredinrwydd cyfnodau¹ ar gyfer pob newidyn. Cyfrifwyd cymarebau cyffredinrwydd² (PR) i ganiatáu mesur ystadegol o gymhariaeth rhwng y ddau grŵp.

Yr hyn a ganfuwyd gennym

Roedd yr e-garfan yn cynnwys cyfanswm o 776,366 o blant a 1,032,088 o oedolion. Roedd 207,596 o oedolion â digwyddiad SM. Roedd 11.8% (n = 83,558) o blant yn byw ar aelwyd gydag oedolyn a gafodd ddigwyddiad SM. Roedd 5% (n = 48,398) o oedolion a gafodd ddigwyddiad SM yn byw gyda phlentyn yn yr un cartref. O'r oedolion â digwyddiad SM, nid oedd 138,532 (66.7%) yn ymwneud â gwasanaethau trothwy isel na thriniaeth arbenigol camddefnyddio sylweddau.

Proffil demograffig y carfannau plant

Oedran canolrif y plant wrth fynd i mewn i'r astudiaeth ar yr aelwydydd â digwyddiad SM oedolion (y cyfeirir ato yma wedi hyn fel SMHH) oedd 5 (Ystod rhyngchwartel (IQR) = 9) mlynedd, tra ar gyfer y rhai a oedd mewn aelwydydd heb unrhyw ddigwyddiadau SM oedolion (Dim SM) roedd yn 6 (IQR = 12) mlynedd. Roedd 32% o'r plant (251,061) wedi cofrestru â meddyg teulu yng Nghymru cyn eu pen-blwydd 1af.

Darperir proffil demograffig cryno ychwanegol sy'n cymharu Plant mewn aelwydydd SMHH neu heb oedolion SM ar yr aelwyd (dim SM) yn Nhabl 2 ac Atodiad A.

¹ Cyffredinrwydd cyfnodau yw'r gyfran o boblogaeth sydd â nodwedd benodol ar unrhyw adeg yn ystod cyfnod penodol o amser. Yn yr achos hwn, y cyfnod yw pan oedd yr oedolyn a'r plentyn yn preswyllo yn yr un cartref o fewn ffrâm amser yr astudiaeth.

² Mae cymhareb cyffredinrwydd yn cyfeirio at gyffredinrwydd digwyddiad/canlyniad mewn un grŵp o'i gymharu â grŵp arall.



Tabl 2: Crynodeb o nodweddion demograffig plant mewn aelwydydd gydag oedolion SM (SMHH) a dim digwyddiad gydag oedolion yn camddefnyddio sylweddau ar yr aelwyd (dim SM)

		SMHH (nifer)	Cyfran %	Dim SM (nifer)	Cyfran %
Rhyw y plentyn	Gwryw	42,874	51.3%	354,769	51.2%
	Benyw	40,684	48.7%	338,009	48.8%
Oed y ffetws	Tymor Llawn (37 - 41 wythnos)	64,119	86.5%	523,778	87.4%
	Cyn amser (eithriadol a sylweddol) (<31 wythnos)	1,007	1.4%	6,413	1.1%
	Cyn amser (32-36 wythnos)	5,525	7.5%	36,519	6.1%
	Tymor hwyr (42-22 wythnos)	3,449	4.7%	32,850	5.5%
	Data coll	9,458	11.3%	93,218	13.5%
Pwysau geni'r plentyn	Pwysau geni arferol (2.5 - 4 kg)	61,559	81.2%	498,673	80.8%
	Pwysau geni isel iawn neu eithriadol o isel (< 1.5 kg)	1,332	1.8%	12,549	2.0%
	Pwysau geni isel (1.5 - 2.5 kg)	6,336	8.4%	35,564	5.8%
	Pwysau geni uchel (4 - 4.5 kg)	5,574	7.4%	59,378	9.6%
	Pwysau geni uchel iawn neu eithriadol o uchel (> 4.5 kg)	1,016	1.3%	10,840	1.8%
	Data coll	7,741	9.3%	75,774	10.9%
WIMD	5 - Cwintel lleiaf difreintiedig	9,052	10.8%	138,718	20.0%
	4	10,946	13.1%	124,389	18.0%
	3	13,874	16.6%	129,314	18.7%
	2	20,313	24.3%	141,742	20.5%
	1 - Cwintel mwyaf difreintiedig	29,373	35.2%	158,615	22.9%

Dadansoddwyd yr ystod o risgiau ychwanegol hefyd gan gymharu canlyniadau i blant sydd â thystiolaeth o oedolion yn camddefnyddio sylweddau ar yr aelwyd neu heb dystiolaeth (gweler Atodiadau A a B). Mae'r adran ganlynol yn nodi amlder neu gyffredinrwydd ychwanegol ffactorau risg a nodwyd mewn plant sy'n byw mewn SMHH:

Amddifadedd ac iechyd adeg geni:

Ar gyfer plant a oedd yn byw yn y cwintel mwyaf difreintiedig, roedd 53.5% yn fwy o



achosion o fod ag oedolion SM ar yr aelwyd.

Roedd yn fwy cyffredin i 27.1% i blant mewn SMHH gael eu geni yn gynnar iawn neu'n eithriadol o gynnar, ac yn fwy cyffredin i 22.4% i gael eu geni cyn amser.

Gan gymharu pwysau geni, roedd yn fwy cyffredin i 45.0% i blant SMHH gael pwysau geni 'isel', er bod nifer yr achosion o bwysau geni 'isel iawn neu eithriadol o isel' 13.6% yn is na'r grŵp cymharu.

Anghenion cymhleth a lluosog – proffiliau plant ac oedolion

Cysylltu â gwasanaethau camddefnyddio sylweddau:

- a. O'r plant mewn SMHH, roedd 41.5% (n = 34,682) yn byw gydag oedolyn a oedd â digwyddiad SM ond nad oedd yn hysbys i wasanaethau triniaeth SM erbyn dyddiad gorffen yr astudiaeth
- b. Roedd yn fwy cyffredin o 133% i blant mewn SMHH gael gysylltiad â gwasanaethau trin pobl sy'n camddefnyddio sylweddau eu hunain, na phlant mewn aelwydydd heb unrhyw ddigwyddiadau SM oedolion

Anawsterau dysgu gyda diagnosis ac anhwylderau niwroddatblygiadol:

- c. Roedd diagnosis o oedolion ag anawsterau dysgu 367% yn uwch i blant mewn SMHH na'r rhai nad oedd mewn aelwydydd SM
- d. Roedd diagnosis o anawsterau dysgu 38.7% yn uwch mewn plant mewn SMHH
- e. Roedd anhwylderau niwroddatblygiadol oedolion 367% yn fwy cyffredin mewn SMH
- f. Roedd diagnosis o anhwylder niwroddatblygiadol 71.7% yn uwch mewn plant mewn SMHH

Diagnosis o orbryder ac iselder:

- g. gymharu mesurau iechyd meddwl, gwelwyd mwy o achosion mewn plant mewn SMHH sy'n byw gydag oedolyn a oedd â diagnosis o orbryder (57.0%) a/neu ddiagnosis o iselder (39.4%)



- h. Roedd gan y plant SMHH eu hunain gyfraddau uwch o ddiagnosis o orbryder (9.5%) a diagnosis o iselder (5.3%)

Hunan-niweidio a hunanladdiad:

- i. Roedd yn fwy cyffredin i blentyn sy'n byw gydag oedolyn â hunan-niweidio wedi'i gofnodi'n glinigol 522% yn uwch mewn SMHH
- j. Roedd gan blant mewn SMHH gyfraddau uwch o 78.1% o hunan-niweidio wedi'i gofnodi'n glinigol
- k. Roedd nifer yr oedolion a fu farw trwy hunanladdiad 866% yn uwch mewn SMHHH, gyda'r nifer cymharol fach o hunanladdiadau plant yn dangos nad oedd gwahaniaeth arwyddocaol yn ystadegol rhwng SMHH ac aelwydydd heb SM

Cyfiawnder troseddol

Roedd 24,136 o blant mewn SMHH yn byw gydag oedolyn a oedd ag achos llys yr ynadon yn gysylltiedig â SM (28.9% o blant mewn SMHHH, 3.1% o'r holl blant).

Roedd gan blant mewn SMHH gyfraddau uwch o achosion llys yr ynadon sy'n gysylltiedig â SM na phlant mewn aelwydydd heb SM.

O blant mewn SMHHH, roedd 12.4% (n = 4,222) yn byw gydag oedolion y cofnodwyd eu digwyddiad SM cyntaf ar yr aelwyd mewn data llys troseddol.

Plant sy'n derbyn gofal a chymorth

O gymharu â phlant a oedd yn byw mewn aelwydydd gydag oedolion heb SM, roedd cyfraddau derbyn gofal a chymorth gan awdurdodau lleol dair gwaith yn uwch mewn plant mewn SMHH.


Ymhlith yr holl blant sy'n derbyn gofal a chymorth (n = 13,623), cofnodwyd 424% yn uwch o achosion o broblem sy'n gysylltiedig â SM yn y rhai mewn SMHH.

Roedd SM rhieni ar gofnod y plentyn o ofal a chymorth bron i wyth gwaith yn uwch yn y plant SMHH.

Roedd cyfradd cofnod y Gofrestr Amddiffyn Plant 6 gwaith yn uwch mewn plant mewn SMHH nag mewn plant eraill a oedd yn derbyn gofal a chymorth.



Mae Ffigur 2 yn dangos pa mor aml yn ôl categori o angen i'r Plant sy'n derbyn gofal a chymorth, yn ôl aelwydydd SM neu aelwydydd heb SM.



Ffigur 2: Categori o angen y plant ar gyfer plant a oedd â chofnod yn setiau data Plant Mewn Angen Cymru (CINW) neu Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth (CRCS), wedi'u haenu yn ôl aelwyd heb SM (graff uchaf) neu aelwydydd SM (graff isaf)

Pam mae'n bwysig

Mae'r astudiaeth hon, sy'n cynnwys carfannau cysylltiedig ar lefel poblogaeth, yn datgelu gwahaniaethau sylweddol rhwng plant sy'n byw mewn aelwyd naill ai gydag oedolion neu heb oedolion sydd â thystiolaeth o gamddefnyddio sylweddau, fel y'i mesurir gan bresenoldeb digwyddiad iechyd neu gyfiawnder troseddol sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau. Mae'r gwahaniaethau hyn yn amlwg mewn amrywiaeth o ddangosyddion gan gynnwys lefelau amddifadedd, canlyniadau geni niweidiol, lefel ymwneud â gofal cymdeithasol plant, materion iechyd meddwl, ac achosion cyfiawnder troseddol sy'n gysylltiedig â sylweddau.

Gwelwyd tuedd sylweddol rhwng amddifadedd a phlant mewn aelwydydd gyda digwyddiadau SM oedolion, gyda 35.3% o blant mewn aelwydydd SM yn y cwintel mwyaf difreintiedig, o gymharu â 22.8% o blant mewn aelwydydd heb SM. Mae astudiaethau blaenorol wedi dangos bod plant sy'n byw mewn mwy o amddifadedd yng Nghymru mewn mwy o berygl o ddefnyddio alcohol yn gynnar,⁹ a'u bod yn fwy tebygol o brofi problemau iechyd meddwl¹⁰ ac anhwylderau iechyd meddwl sy'n cyd-



ddigwydd a chamddefnyddio sylweddau.¹¹

Ymhlith oedolion â digwyddiad SM, roedd tystiolaeth glir o ddiffyg ymgysylltu â gwasanaethau triniaeth trothwy isel neu arbenigol ar gyfer camddefnyddio sylweddau, sy'n cynrychioli angen sylweddol heb ei ddiwallu a chyfleoedd a gollwyd i atgyfeirio pobl neu hyrwyddo mynediad at ofal a chymorth sy'n gysylltiedig â SM neu dderbyn y cymorth hwnnw.

O ran iechyd plant, roedd plant mewn SMHH yn fwy tebygol o gael eu geni cyn amser a chael pwysau geni isel. Mae'r canlyniadau geni niweidiol hyn yn cyd-fynd ag ymchwil bresennol sy'n cysylltu camddefnydd y fam o sylweddau ag iechyd gwael mewn mamau a babanod,^{1,2} er bod ein hastudiaeth yn ystyried pob oedolyn mewn aelwyd. Gall pwysau geni isel effeithio ar ddatblygiad gwybyddol a gall arwain at ganlyniadau academaidd gwaeth.^{12,13} Yn ogystal, roedd anawsterau dysgu a oedd wedi cael diagnosis a phroblemau niwroddatblygiadol yn fwy cyffredin ymhlith plant mewn SMHHH, gyda goblygiadau gydol oes posibl o ran cymorth, cyflogaeth a chyfle.

Yn olaf, mae'r cyfraddau uwch o gyswllt â'r gwasanaeth cyfiawnder troseddol a chyfraddau uwch o ymgysylltu a gwasanaethau trin pobl sy'n camddefnyddio sylweddau yn y plant hynny mewn SMHH yn cadarnhau i raddau yr effaith bosibl rhwng y cenedlaethau o oedolion SM ar yr aelwyd. Mae canfyddiadau'r astudiaeth yn tynnu sylw at yr angen am ymyriadau wedi'u targedu sy'n mynd i'r afael nid yn unig â phryderon iechyd uniongyrchol unigolion yr effeithir arnynt ond hefyd y ffactorau systemig sy'n parhau â chylchoedd camddefnyddio sylweddau ar draws cenedlaethau, gan ddangos effaith gymdeithasol ehangach camddefnyddio sylweddau ar les rhwng cenedlaethau.

Beth nesaf?

Ehangu data cysylltiedig

Yn y dyfodol, dylai fod yn bosibl cysylltu'r garfan hon â data iechyd, economaidd a gofal gymdeithasol eraill, i ymchwilio i ragor o effeithiau a chysylltiadau tymor hwy rhwng digwyddiadau SM oedolion a phlant ar yr aelwydydd, gan gynnwys gwerthuso ymyriadau sydd â'r nod o wella canlyniadau.

Mynd i'r afael â chyfyngiadau'r astudiaeth a rhagfarn bosibl

Mae'r astudiaeth hon yn nodi cysylltiadau rhwng penderfynyddion SMHH a phlant, mae'n bwysig nodi nad yw'r cysylltiadau hyn yn awgrymu achosiad. Mae natur



arsylwadol y data yn cyfyngu ar y gallu i ddod i gasgliadau ynghylch perthnasoedd achosol uniongyrchol, a gall ffactorau anfesuredig eraill gyfrannu at y canlyniadau a welwyd.

Mae astudiaethau sy'n defnyddio data gweinyddol a gesglir fel mater o drefn yn cael eu cyfyngu gan gywirdeb codio, gall hyn gyflwyno rhagfarn ac anghywirdebau, ond defnyddiwyd sampl gynrychioliadol fawr o boblogaeth Cymru ar lefel poblogaeth. Roedd Banc Data SAIL yn cwmpasu data meddygon teulu ar gyfer 86% o unigolion a gofrestrwyd gyda meddyg teulu yng Nghymru, felly ni ellid dal rhai digwyddiadau SM gofal sylfaenol, ac nid oedd unrhyw ddigwyddiadau SM a ddigwyddodd y tu allan i Gymru o fewn y cwmpas. Mae'n debygol hefyd nad yw anhwylderau defnyddio alcohol a defnyddio cyffuriau anghyfreithlon yn cael eu cofnodi'n ddigonol gan feddygon teulu, yn enwedig ar gyfer dynion a phobl ifanc.¹¹

Cyfyngiad arall sy'n hysbys yw'r ffaith nad oes gan y rhan fwyaf o blant o dan dair oed mewn data gofal cymdeithasol plant faes cyswllt dienw, felly ni ellid cynnwys y plant ieuengaf sy'n derbyn gofal.¹⁴ Hefyd mae CINW a CRCS ond yn cynnwys achosion sydd ar agor yn ystod tri mis cyntaf cyfan y flwyddyn, sydd felly'n tangyfrif achosion hefyd.

Roedd y gofyniad am gyfnod o 90 diwrnod o leiaf mewn cyfeiriad yn lleihau grwpio preswylwyr newydd ar gam gyda'r aelwyd flaenorol ond wedi eithrio pobl mewn llety dros dro (a oedd wedi diweddarau eu cyfeiriad gyda'r meddyg teulu cyn ac ar ôl symud), a phobl a oedd ond wedi diweddarau eu cyfeiriad o fewn y 90 diwrnod diwethaf mewn cyfeiriad. Dangoswyd bod ansefydlogrwydd aelwyd yn ffactor sy'n gysylltiedig â phlant â'r canlyniadau gofal cymdeithasol salaf². Mae gan bobl sydd â phrofiad byw o ddigartrefedd anghydraddoldebau cymdeithasol ac iechyd¹⁵ gyda mwy o absenoldebau ysgol i blant yn y teulu,¹⁶ ond roedd hyn y tu allan i gwmpas yr astudiaeth hon.

Roedd set ddata MACO y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn SAIL yn cynnwys y drosedd fwyaf difrifol yn unig, felly nid oedd gwybodaeth am unrhyw drosedd(au) llai difrifol lluosog yn hysbys, a dim ond unigolion a oedd yn bodloni'r trothwy ar gyfer erlyn troseddol gyda throsedd sy'n gysylltiedig â SM a oedd wedi'u cynnwys yn MACO.



Cyfeiriadau

1. Taylor MF, Marquis R, Coall D, Wilkinson C. Substance Misuse–Related Parental Child Maltreatment. *J Drug Issues* [Internet]. 2017 Apr 27;47(2):241–60. Available from: <http://journals.sagepub.com/doi/10.1177/0022042616683670>
2. Roy J. Children living with parental substance misuse: A cross-sectional profile of children and families referred to children’s social care. *Child Fam Soc Work* [Internet]. 2021 Feb 26;26(1):122–31. Available from: <https://onlinelibrary.wiley.com/doi/10.1111/cfs.12795>
3. Lowthian E, Anthony R, Evans A, Daniel R, Long S, Bandyopadhyay A, et al. Adverse childhood experiences and child mental health: an electronic birth cohort study. *BMC Med*. 2021 Dec 1;19(1).
4. Bandyopadhyay A, Brophy S, Akbari A, Demmler J, Kennedy J, Paranjothy S, et al. Health and household environment factors linked with early alcohol use in adolescence: a record-linked, data-driven, longitudinal cohort study. *Int J Popul Data Sci* [Internet]. 2022 Jul 7;7(1). Available from: <https://ijpds.org/article/view/1717>
5. Degenhardt, L. *et al.* The global burden of disease attributable to alcohol and drug use in 195 countries and territories, 1990–2016: a systematic analysis for the Global Burden of Disease Study 2016. *The Lancet Psychiatry* 5, 987–1012 (2018).
6. European Union Drugs Agency. Statistical Bulletin 2022 – methods and definitions for problem drug use. Available at: https://www.euda.europa.eu/data/stats2022/methods/pdu_en
7. Welsh Government. Families first: programme guidance [Internet]. 2011. Available from: [Families First Programme Guidance](#)
8. National Council for Behavioural Health. The business case for effective substance use disorder treatment. 2014. [June 27, 2016]. Retrieved from http://www.thenationalcouncil.org/wp-content/uploads/2015/01/14_Business-Case_Substance-Use.pdf.
9. Bandyopadhyay A, Brophy S, Akbari A, Demmler J, Kennedy J, Paranjothy S, et al. Health and household environment factors linked with early alcohol use in adolescence: a record-linked, data-driven, longitudinal cohort study. *Int J Popul Data Sci* [Internet]. 2022 Jul 7;7(1). Available from: <https://ijpds.org/article/view/1717>
10. Bandyopadhyay A, Whiffen T, Fry R, Brophy S. How does the local area deprivation influence life chances for children in poverty in Wales: A record

- 
- linkage cohort study. *SSM - Popul Heal*[Internet]. 2023;22:101370. Available from: <https://doi.org/10.1016/j.ssmph.2023.101370>
11. Rees S, Watkins A, Keauffling J, John A. Incidence, Mortality and Survival in Young People with Co-Occurring Mental Disorders and Substance Use: A Retrospective Linked Routine Data Study in Wales. *Clin Epidemiol* [Internet]. 2022 Jan; Volume 14:21–38. Available from: <https://www.dovepress.com/incidence-mortality-and-survival-in-young-people-with-co-occurring-men-peer-reviewed-fulltext-article-CLEP>
 12. Oudgenoeg-Paz O, Mulder H, Jongmans MJ, van der Ham IJM, Van der Stigchel S. The link between motor and cognitive development in children born preterm and/or with low birth weight: A review of current evidence. *Neurosci Biobehav Rev* [Internet]. 2017 Sep;80(January):382–93. Available from: <https://doi.org/10.1016/j.neubiorev.2017.06.009>
 13. Bandyopadhyay A, Jones H, Parker M, Marchant E, Evans J, Todd C, et al. Weighting of risk factors for low birth weight: A linked routine data cohort study in Wales, UK. *BMJ Open*. 2023;13(2):1–8.
 14. Lee A, Elliott M, Scourfield J, Bedston S, Broadhurst K, Ford D, et al. Data Resource: Children Receiving Care and Support and Children in Need, administrative records in Wales. *Int J Popul Data Sci* [Internet]. 2022 May 9;7(1). Available from: <https://ijpds.org/article/view/1694>
 15. Song J, Grey CNB, Davies AR. Creating an e-cohort of individuals with lived experience of homelessness and subsequent mortality in Wales, UK. *J Public Health (Bangkok)* [Internet]. 2022 Dec 1;44(4):805–9. Available from: <https://academic.oup.com/jpubhealth/article/44/4/805/6297493>
 16. Thomas I. Quantifying the Association Between Family Homelessness and School Absence in Wales, UK. *Int J Homelessness* [Internet]. 2024 Jan 26;4(1):39–55. Available from: <https://ojs.lib.uwo.ca/index.php/ijoh/article/view/15382>



Cydnabyddiaeth

Mae'r astudiaeth hon yn defnyddio data dienw ym Manc Data SAIL. Cwblhawyd yr holl waith a wnaed ym Manc Data SAIL o dan ganiatâd a chymeradwyaeth Panel Adolygu Llywodraethu Gwybodaeth annibynnol SAIL (IGRP) o dan rif prosiect 1451. Hoffem gydnabod yr holl ddarparwyr data sy'n sicrhau bod data dienw ar gael ar gyfer ymchwil.

Atodiadau

Atodiad A

Tabl o gyfrifiadau disgrifiadol, cyffredinrwydd a chymarebau cyffredinrwydd (gyda chyfyngau hyder 95%) wedi'u haenu yn ôl plant sy'n byw mewn aelwydydd â digwyddiad SM oedolion (SMHH) neu aelwydydd heb ddigwyddiad SM oedolion (dim SM).

Newidyn	Lefel	Dim digwyddiad SM oedolion (gweddill y boblogaeth)		Digwyddiad SM i oedolion (carfan SMHH)		Cymhareb achosion	
		N plant	Cyffredinolrwydd (%)	N plant	Cyffredinolrwydd (%)	SMHH : dim SM	95% CI
Cyfanswm (N)		692,778	100.0	83,558	100.0		
Digwyddiad alcohol i oedolion	le	0	0.0	49,142	58.8		
Digwyddiad cyffuriau oedolion	le	0	0.0	43,908	52.5		
Digwyddiad SM amhenodol oedolyn	le	0	0.0	15,793	18.9		
Rhyw y plentyn	Gwryw	354,769	51.2	42,874	51.3	1.002	0.992 - 1.012
	Menyw	338,009	48.8	40,684	48.7	0.998	0.988 - 1.008
Cwintel IMD Cymreig	5 - Lleiaf difreintiedig	138,718	20.0	9,052	10.8	0.541	0.530 - 0.553
	4	124,389	18.0	10,946	13.1	0.730	0.715 - 0.744
	3	129,314	18.7	13,874	16.6	0.890	0.874 - 0.905
	2	141,742	20.5	20,313	24.3	1.188	1.171 - 1.206
	1 - Mwyaf difreintiedig	158,615	22.9	29,373	35.2	1.535	1.516 - 1.555
Pwysau geni plentyn	Pwysau geni arferol (2.5 - 4 kg)	498,673	80.8	61,559	81.2	1.005	0.996 - 1.013
	Pwysau geni isel iawn neu isel iawn (< 1.5 kg)	12,549	2.0	1,332	1.8	0.864	0.816 - 0.914
	pwysau geni uchel (1.5 - 2.5 kg)	35,564	5.8	6,336	8.4	1.450	1.412 - 1.489
	pwysau geni uchel (4 - 4.5 kg)	59,378	9.6	5,574	7.4	0.764	0.743 - 0.785
	Pwysau geni uchel iawn neu eithriadol (> 4.5 kg)	10,840	1.8	1,016	1.3	0.763	0.715 - 0.813
	Pwysau geni ar goll	75,774	10.9	7,741	9.3	0.847	0.827 - 0.867



Newidyn	Lefel	Dim digwyddiad SM oedolion (gweddill y boblogaeth)		Digwyddiad SM i oedolion (carfan SMHH)		Cymhareb achosion	
		N plant	Cyffredinolrwydd (%)	N plant	Cyffredinolrwydd (%)	SMHH : dim SM	95% CI
Oedran beichiogrwydd plentyn	Teler (37 - 41 weeks)	523,778	87.4	64,119	86.5	0.990	0.982 - 0.999
	lawn neu eithriadol o gynamserol (< 31 wythnos)	6,413	1.1	1,007	1.4	1.271	1.189 - 1.358
	Cyn y tymor (32 - 36 wythnos)	36,519	6.1	5,525	7.5	1.224	1.190 - 1.259
	Tymor hwyr (42 - 44 wythnos)	32,850	5.5	3,449	4.7	0.850	0.820 - 0.880
	Oedran beichiogrwydd ar goll	93,218	13.5	9,458	11.3	0.841	0.824 - 0.859
Newidynnau sy'n benodol i oedolion							
Cronfa ddata triniaeth oedolion ar SM	le	0	0.0	48,876	58.5		
Achos llys troseddol sy'n gysylltiedig ag oedolion sy'n gysylltiedig â SM	le	0	0.0	24,136	28.9		
Pryder oedolion	le	362,064	52.3	68,565	82.1	1.570	1.557 - 1.583
Iselder oedolion	le	457,258	66.0	76,881	92.0	1.394	1.383 - 1.405
Hunan-niweidio oedolion	le	32,499	4.7	24,380	29.2	6.220	6.117 - 6.324
Anawsterau dysgu oedolion	le	1,300	0.2	732	0.9	4.668	4.264 - 5.111
Oedolion niwroddatblygiadol	le	6,793	1.0	3,828	4.6	4.672	4.491 - 4.861
Hunanladdiad oedolion	le	1,244	0.2	1,449	1.7	9.657	8.953 - 10.417
Newidynnau plentyn-benodol							
Pryder plant	le	55,054	7.9	7,271	8.7	1.095	1.069 - 1.122
Iselder plant	le	67,304	9.7	8,544	10.2	1.053	1.029 - 1.076
Hunan-niweidio plant	le	12,323	1.8	2,647	3.2	1.781	1.708 - 1.857
Anawsterau dysgu plant	le	1,853	0.3	310	0.4	1.387	1.230 - 1.564
Materion niwroddatblygiadol plant	le	14,528	2.1	3,008	3.6	1.717	1.651 - 1.785



Newidyn	Lefel	Dim digwyddiad SM oedolion (gweddill y boblogaeth)		Digwyddiad SM i oedolion (carfan SMHH)		Cymhareb achosion	
		N plant	Cyffredinolrwydd (%)	N plant	Cyffredinolrwydd (%)	SMHH : dim SM	95% CI
Hunanladdiad plant	le	170	0.0	20	0.0	0.975	0.614 - 1.550
Achos llystroseddol sy'n gysylltiedig â SM plentyn	le	3,398	0.5	582	0.7	1.420	1.301 - 1.551
Cronfa ddata triniaeth plentyn ar SM	le	10,098	1.5	2,841	3.4	2.333	2.238 - 2.432
Plentyn sy'n Derbyn Gofal a Chymorth	le	28,248	4.1	13,623	16.3	3.998	3.918 - 4.081
Cofnod sy'n gysylltiedig â SM CRCS plentyn	le	2,288	0.3	1,445	1.7	5.236	4.902 - 5.593
Rhiant-gofnod sy'n gysylltiedig â SM CRCS	le	6,960	1.0	7,536	9.0	8.977	8.689 - 9.274
Categori angen CRCS plentyn	Cam-drin neu esgeulustod	13,437	47.6	7,625	56.0	1.177	1.144 - 1.210
	Anabledd neu salwch plentyn	5,293	18.7	755	5.5	0.296	0.274 - 0.319
	Anabledd neu salwch rhieni	755	2.7	550	4.0	1.511	1.353 - 1.686
	Teulu mewn straen aciwt	3,509	12.4	1,705	12.5	1.008	0.951 - 1.068
	Camweithrediad teuluol	3,810	13.5	2,457	18.0	1.337	1.271 - 1.407
	Ymddygiad annerbyniol cymdeithasol o blant	947	3.4	343	2.5	0.751	0.664 - 0.850
	Incwm isel	31	0.1	20	0.1	1.338	0.763 - 2.347
	Rhianta absennol	430	1.5	158	1.2	0.762	0.635 - 0.914
	Tarfu ar fabwysiadu	36	0.1	10	0.1	0.576	0.286 - 1.161
Cofnod y Gofrestr Amddiffyn Plant	le	6,708	1.0	5,653	6.8	6.987	6.744 - 7.239
Plentyn sy'n Gofalu am Gymru	le	11,546	1.7	6,283	7.5	4.512	4.375 - 4.652




Dalier Sylw: Cyfrifwyd nifer yr achosion o newidynnau â data coll ar ôl cael gwared ar y nifer coll. Mae cyfyngau hyder 95% uchaf ac isaf > 1 ar gyfer y gymhareb cyffredinwydd yn awgrymu bod y newidyn yn fwy cyffredin mewn plant mewn SMHH na gweddill y boblogaeth (gydag arwyddocâd ystadegol).

Atodiad B

Cynrychiolaeth graffigol o gymarebau cyffredinwydd sy'n gysylltiedig â phlant mewn aelwydydd camddefnyddio sylweddau (SMHH), o gymharu ag aelwydydd heb SM.

Mae'r llinell doredig fertigol goch yn dynodi cymhareb cyffredinwydd o 1 (dim gwahaniaeth rhwng y ddau grŵp), a dangosir cyfyngau hyder 95%.

Rhyw plentyn: Gwryw
 Rhyw plentyn: Menyw
 Cwintel IMD Cymreig: 5 - Lleiaf difreintiedig
 Quintil IMD Cymraeg: 4
 Quintil IMD Cymraeg: 3
 Quintil IMD Cymraeg: 2
 Quintil IMD Cymru: 1 - mwyaf difreintiedig
 Pwysau geni plentyn: pwysau geni arferol
 Pwysau geni plentyn: pwysau geni isel iawn neu isel iawn
 Pwysau geni plentyn: pwysau geni isel
 Pwysau geni plentyn: pwysau geni uchel
 Pwysau geni plentyn: pwysau geni uchel iawn neu eithriadol
 Oedran beichiogrwydd plentyn: Tymor
 Oedran beichiogrwydd plentyn: Cynamserol iawn neu eithriadol
 Oedran beichiogrwydd plentyn: Cynamserol
 Oedran beichiogrwydd plentyn: Tymor hwyr
 Pryder oedolion
 Iselder oedolion
 Hunan-niweidio oedolion
 Anawsterau dysgu oedolion
 Hunanladdiad oedolion
 Pryder plant
 Iselder plant
 Hunan-niweidio plant
 Anawsterau dysgu plant
 Materion niwroddatblygiadol plant
 Hunanladdiad plant
 Achos llys troseddol sy'n gysylltiedig â SM plentyn
 Cronfa ddata triniaeth plentyn ar SM
 Plentyn sy'n derbyn gofal a chymorth
 Cofnod sy'n gysylltiedig â SM CRCS plentyn
 Rhiant-gofnod sy'n gysylltiedig â SM CRCS
 Categori angen CRCS plentyn: Cam-drin neu esgeulustod
 Categori angen CRCS plentyn: Anabled neu salwch plentyn
 Categori angen CRCS plentyn: Anabled neu salwch rhieni
 Categori angen CRCS plentyn: Teulu mewn straen aciwt
 Categori angen CRCS plentyn: Camweithrediad teuluol
 Categori angen CRCS plentyn: Ymddygiad annerbyniol plentyn yn gymdeithasol
 Categori angen CRCS plentyn: Incwm isel
 Categori angen CRCS plentyn: Rhianta absennol
 Categori angen CRCS plentyn: Amharu ar fabwysiadu
 Cofnod y Gofrestr Amddiffyn Plant
 Plentyn sy'n Gofalu am Gymru



SM = camddefnyddio sylweddau

IMD = mynegai amddifadedd lluosog

CRCS = Plentyn naill ai mewn setiau data Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth neu Plant Mewn Angen Cymru (CINW).



Atodiad C

Codau a ddefnyddir i ddiffinio digwyddiadau

Defnyddiwyd 10^{fed} Adolygiad o'r Dosbarthiad Rhyngwladol o Glefydau (ICD-10) i ddsbarthu marwolaethau camddefnyddio sylweddau a derbyniadau i'r ysbyty fel a ganlyn:

Marwolaethau camddefnyddio cyffuriau

Cyflwr	Cod ICD-10
Yr holl farwolaethau lle nodir y cyflyrau canlynol fel yr achos sylfaenol	
Anhwyldeira meddyliol ac ymddygiadol oherwydd opioidau, cocên, tawelyddion neu gyffuriau hypnotig, cocên, symbylyddion eraill gan gynnwys caffeine, rhithbeiriau, defnyddio cyffuriau lluosog	F11-F16, F19
Pob marwolaeth lle nodir mai'r cyflyrau canlynol yw'r achos sylfaenol A lle mae codau F11-F16, F19, T40, T424, T436 wedi'u cofnodi yn y dystysgrif marwolaeth hefyd	
Anhwyldeira meddyliol ac ymddygiadol oherwydd toddyddion anweddol	F18
Gwenwyno damweiniol gan gyffuriau, meddyginiaethau, a sylweddau biolegol	X40-X44
Hunan-wenwyno bwriadol gan gyffuriau, meddyginiaethau, a sylweddau biolegol	X60-X64
Ymosodiad gan gyffuriau, meddyginiaethau a sylweddau biolegol	X85
Gwenwyno gan gyffuriau, meddyginiaethau a sylweddau biolegol, mewn achosion o fwriad amhendant	Y10-Y14

Marwolaeth benodol i alcohol

Cyflwr	Cod ICD-10
Anhwyldeira meddyliol ac ymddygiadol oherwydd defnyddio alcohol	F10
Clefyd alcoholaidd yr afu/iau	K70
Cysylltiad a gwenwyno damweiniol gan alcohol	X45
Cysylltiad a gwenwyno bwriadol gan alcohol	X46
Cysylltiad a gwenwyno gan alcohol, mewn achosion o fwriad	Y15



amhendant	
Syndrom ffug-Cushing wedi'i achosi gan alcohol	E244
Dirywiad y system nerfol oherwydd alcohol	G312
Polyniwropathi alcoholig	G621
Myopathi alcoholig	G721
Cardiomyopathi alcoholig	I426
Gastritis alcoholig	K292
Llid y pancreas aciwt wedi'i achosi gan alcohol	K852
Llid y pancreas cronig wedi'i achosi gan alcohol	K860
Syndrom alcohol y ffoetws (dismorffig)	Q860
Lefelau gormodol o alcohol yn y gwaed	R780

Derbyniadau i'r ysbyty

Cyflwr	Cod ICD-10
Unrhyw gyflwr meddyliol/ymddygiadol (diffiniad lechyd a Gofal Digidol y GIG)	F11-16, F18, F19
Unrhyw wenwyno gan gyffuriau anghyfreithlon (diffiniad lechyd a Gofal Digidol y GIG)	T400-T403, T405-T409, T436
Clefyd alcoholaidd yr afu/iau	K70
Cysylltiad a gwenwyno damweiniol gan alcohol	X45
Cysylltiad a gwenwyno bwriadol gan alcohol	X65
Cysylltiad a gwenwyno gan alcohol, digwyddiad amhendant	Y15
Tystiolaeth o gysylltiad ag alcohol a benderfynwyd gan lefelau alcohol yn y gwaed	Y90
Tystiolaeth o gysylltiad ag alcohol a benderfynwyd gan lefelau lefel meddwdod	Y91
Syndrom ffug-Cushing wedi'i achosi gan alcohol	E244
Dirywiad y system nerfol oherwydd alcohol	G312
Polyniwropathi alcoholig	G621
Myopathi alcoholig	G721
Cardiomyopathi alcoholig	I426
Gastritis alcoholig	K292
Llid y pancreas aciwt wedi'i achosi gan alcohol	K852
Llid y pancreas cronig wedi'i achosi gan alcohol	K860
Syndrom alcohol y ffoetws (dismorffig)	Q860
Lefelau gormodol o alcohol yn y gwaed	R780
Gwenwyno ethanol	T510
Gwenwyno methanol	T511



Effaith wenwynig alcohol, amhenodol

T519

Derbyniadau i Adrannau Achosion Brys

Cyflwr	Cod
Gwenwyno neu orddos - alcohol	10A
Gwenwyno neu orddos - cyffur presgripsiwn	10B
Gwenwyno neu orddos - cyffur nad oedd ar bresgripsiwn/cyffur a brynwyd	10C
Gwenwyno neu orddos - cyffur anghyfreithlon	10D
Gwenwyno neu orddos - arall neu amhenodol	10Z
Camddefnydd Cronig o Alcohol	31A
Camddefnydd Cronig o Gyffuriau	31B



Better Outcomes through Linked Data
Gwell canlyniadau drwy ddata cysylltiol

© Hawlfraint Brenhinol 2025

Ychwanegu yr URLs o'r adrannod cyhoeddi yma. (Darganfod yr cysylltiadau trwy clicio yma: [Departments, agencies and public bodies - GOV.UK - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#))

Mae'r cyhoeddiad hon yn drwyddedig trwy'r termau yr Open Government License v3.0, heb law am ble nodir yr wahanol. I weld yr trwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle adnaboddwn unrhyw gwybodaeth hawlfraint trydydd-person, bydd rhaid i chi derbyn caniatad o'r unigolion sy'n dal yr hawlfraint.

OGL

Partneriaid Cysylltiol

